
Ansawdd addysg a hyfforddiant ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion

Mai 2016



Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan, awdurdodau lleol
- ▲ ysgolion cynradd
- ▲ ysgolion uwchradd
- ▲ ysgolion arbennig
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion
- ▲ ysgolion annibynnol
- ▲ ysgolion pob oed
- ▲ addysg bellach
- ▲ colegau arbenigol annibynnol
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned
- ▲ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon
- ▲ Cymraeg i oedolion
- ▲ dysgu yn y gwaith
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- ▲ yn cyhoeddi arfer dda gyhoeddus yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyflwyniad	1
Cefndir	1
Prif ganfyddiadau	4
Argymhellion	6
Safonau a gyflawnir gan ddysgwyr	7
Dilyniant	7
Addysgu a hyfforddiant	8
Llythrennedd a rhifedd	9
Sgiliau Hanfodol Cymru	10
Asesu	11
Yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, a chydraddoldeb ac amrywiaeth	12
Arweinyddiaeth a rheolaeth, a sicrhau ansawdd	13
Sail y dystiolaeth	17
Atodiad 1: Data	19
Atodiad 2: Holiadur i aseswyr	22
Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg	24

Cyflwyniad

Diben yr arolwg thematig hwn yw rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar safonau ac ansawdd presennol addysg a hyfforddiant ym maes gofal cymdeithasol oedolion a gyflwynir gan sefydliadau addysg bellach (SABau) a darparwyr dysgu yn y gwaith (DYYG) ledled Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried ansawdd yr addysgu, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth mewn rhaglenni hyfforddi gofal cymdeithasol oedolion. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal mewn cartrefi gofal preswyl a lleoliadau gofal cymdeithasol oedolion eraill. Er bod y materion yn debyg, nid yw'r adroddiad yn canolbwyntio ar ofal cartref. Nid yw'r adroddiad yn rhoi sylwadau ar berthnasedd nac addasrwydd y cymwysterau gan fod Cymwysterau Cymru yn ymchwilio i'r mater hwn ar hyn o bryd.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru ac arweinwyr, rheolwyr a SABau a darparwyr DYYG. Gallai hefyd fod o ddiddordeb i Sgiliau Gofal a Datblygu, sef Cyngor Sgiliau Sector y DU ar gyfer y maes hwn, Cyngor Gofal Cymru sy'n bartner Sgiliau Gofal a Datblygu a chyflogwyr ar draws y sector gofal cymdeithasol oedolion. Mae'r adroddiad yn defnyddio ystod y dystiolaeth a nodir ar ddiwedd yr adroddiad hwn, y tablau data yn Atodiad 1 a chwestiynau hunanarfarnu i aseswyr yn Atodiad 2.

Cefndir

Cymwysterau

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn pennu p'un a oes gofal digonol yn cael ei ddarparu i fodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn. Y safonau hyn, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan adran 23 Deddf Safonau Gofal 2000, yw'r gofynion craidd ar gyfer yr holl gartrefi gofal sy'n darparu gofal personol neu ofal nyrsio i bobl hŷn. Maent yn mynnu bod o leiaf hanner y staff gofal (ac eithrio'r rheolwr cofrestredig neu'r rheolwr gofal) yn meddu ar lefel 2 CGC mewn gofal neu gymhwyster tebyg a gydnabyddir gan Gyngor Gofal Cymru, (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004).

Y Diplomâu mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon ar lefelau 2, 3 a 5 (nid oes lefel 4 ar hyn o bryd) yw'r cymwysterau cydnabyddedig ar gyfer gweithwyr gofal, uwch weithwyr gofal a rheolwyr mewn iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru. Diben y cymwysterau hyn yw rhoi i'r dysgwyr y medrau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ofalu am bobl eraill 'mewn ystod eang o leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol' a chynorthwyo dysgwyr i ddangos eu cymhwysedd galwedigaethol, (City and Guilds, 2015).

Mae AGGCC yn hyrwyddo'r cymwysterau hyn i sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r cymwysterau wedi eu cynllunio i roi hunaniaeth broffesiynol gref i ddysgwyr, helpu i fagu hyder yn eu gallu eu hunain, a gwella eu cymhelliant, eu hunan-barch a'u hyder (yn enwedig o ran deall deddfwriaeth).

Caiff y rhan fwyaf o staff mewn gofal cymdeithasol eu cyflogi ar lefel 2 a lefel 3, lle maent yn rhoi cymorth gweithredol i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd.

Ar gyfer cymhwyster lefel 2, nid oes angen i ddysgwyr gael unrhyw brofiad blaenorol o weithio mewn amgylchedd gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, gallai dysgwyr fod yn gweithio mewn gofal eisoes a gallent fod eisieu cydnabyddiaeth achrededig o'u medrau presennol. Weithiau, mae dysgwyr lefel 3 yn gweithio heb oruchwyliaeth.

Mae cymhwyster lefel 5 ar gyfer dysgwyr sydd eisoes yn gweithio mewn swydd reoli mewn iechyd a gofal cymdeithasol sydd fel arfer yn rheolwyr cynorthwyol neu'n ddirprwy reolwyr, neu'n rheolwyr nad ydynt wedi ennill cymhwyster galwedigaethol ar y lefel hon eto.

Ar bob lefel, mae dysgwyr yn ennill y diplomâu trwy ennill cyfuniad o unedau o gronfa o unedau gorfodol a dewisol. Mae'r unedau dewisol yn galluogi dysgwyr i ddewis y rhai sy'n benodol i'w sector penodol mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Cymwysterau mewn sefydliadau addysg bellach

Mae arsylwi ac asesu mewn amgylchedd gweithio yn ofynnol ar gyfer diplomâu ar bob lefel. Mae SABau yn cynnig y cymwysterau trwy gyrsiau rhan-amser ar gyfer y rheiny sy'n gweithio yn y sector. I ddysgwyr nad ydynt yn cael eu cyflogi yn y sector ond sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y sector nyrsio neu'r sector gofal, mae colegau'n cynnig cymwysterau fel y Diploma Estynedig BTEC. Mae SABau hefyd yn cyflwyno cymwysterau sydd wedi eu hanelu at wella medrau'r gweithlu trwy ddefnyddio prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

Cymwysterau mewn dysgu yn y gwaith

Mewn Dysgu yn y Gwaith, mae fframweithiau lefel 2 a lefel 3 ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn darparu'r llwybr prentisiaeth ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ar gyfer oedolion neu ym maes gofal cymdeithasol ar gyfer plant a'u teuluoedd. Ar hyn o bryd, mae'r fframwaith prentisiaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gwblhau'r diploma a chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn cyfathrebu, cymhwyso rhif, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mewn Dysgu yn y Gwaith, mae dyluniad y fframwaith prentisiaeth hwn yn darparu cymhwyster cychwynnol eang i amrywiaeth eang o weithwyr yn y sector. Mae gweithlu'r sector yn heneiddio ac mae'r fframwaith yn ceisio denu gweithwyr ifanc i'r sector hefyd, a chynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn gwella'r cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith neu'u dewis iaith fanteisio ar wasanaethau.

Dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Ar bob lefel o fewn y diploma, ceir uned orfodol sy'n ymwneud â dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Er nad yw dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â dementia, maent yn bwysig wrth ddelio â nifer gynyddol y preswylwyr mewn cartrefi gofal sydd â'r cyflwr. Mae 45,000 o bobl yng Nghymru yn byw â dementia heddiw. Erbyn 2025, disgwylir y bydd y nifer yn y DU yn codi o'r

nifer bresennol, sef 850,000, i dros filiwn, ac erbyn 2050, i dros ddwy filiwn (Cymdeithas Alzheimer, 2015). Mae dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cynnig strategaeth ar gyfer ymgysylltu â, a chynorthwyo, rhywun sydd â dementia mewn ffordd sy'n gweithio iddo ef/iddi hi. Mae'r agwedd hon ar hyfforddiant yn helpu gofawyr i osgoi pethau sy'n dueddol o wneud i'r unigolyn deimlo'n ofnus neu'n bryderus, a chanolbwyntio ar bethau sy'n eu gwneud yn hapus. Mae'n bwysig creu proffil o hoffterau ac anghenion rhywun er mwyn gwneud ei ofal mor briodol ag y bo modd. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl sy'n ei chael yn anodd cyfleu beth yn union sydd ei eisiau arnynt. Mae'r dull hwn yn rhan hanfodol o ofal oedolion sy'n helpu pobl i gysylltu â'u hunaniaeth bresennol a'u hunaniaeth flaenorol.

Prif ganfyddiadau

- 1 Bu cynnydd yn niferoedd y dysgwyr sy'n cael hyfforddiant ar gyfer gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol oedolion mewn darparwyr Dysgu yn y Gwaith ac AB. Fodd bynnag, mae darlun amrywiol o gyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo ar draws y lefelau diploma yn y ddau fath o ddarparwr.
- 2 Mae dilyniant dysgwyr trwy lefelau cymhwyster yn ddibynnol ar natur rolau swydd a pharodrwydd cyflogwr i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gael profiad, cael hyfforddiant a dysgu, a chael eu hasesu ar gyfer cymhwyster uwch. Gan fod rôl gweithiwr gofal yn brysur a heriol, nid yw amgylchiadau yn y gwaith yn aml yn ffafriol i hyfforddiant ychwanegol, ac o ganlyniad, mae dilyniant yn aml yn anodd.
- 3 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn gweithio'n dda gyda chyflogwyr i sicrhau bod addysgu'n digwydd ar adegau sy'n gyfleus i'r cyflogwr a'r dysgwr fel ei gilydd. Yn yr achosion gorau, caiff anghenion dysgwyr eu bodloni orau gan ddulliau hyblyg o gyflwyno ac asesu, fel ymweliadau gyda'r nos ac ar benwythnosau gan aseswyr sy'n addasu yn ôl patrymau sifft.
- 4 Mae addysgu dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar bob lefel yn aneffeithiol yn y mwyafrif o achosion. Mae safon gwaith dysgwyr yn eu portffolios yn rhy amrywiol, a dim ond mewn ffordd aneglur y gall dysgwyr ar bob lefel ddisgrifio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'i werth mewn lleoliad gofal. Ni all tua hanner y dysgwyr roi diffiniad gwybodus o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn eu portffolios neu pan gânt eu holi, er bod aseswyr wedi cymeradwyo bod yr uned yn dderbyniol.
- 5 Mae angen lefel dda o fedrau llythrennedd a rhifedd ar staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal er mwyn deall a chyfleu cyfarwyddiadau, ysgrifennu adroddiadau a rhoi meddyginiaeth. Mae angen iddynt gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig â chydweithwyr a phobl sy'n derbyn gofal hefyd.
- 6 Mae darparwyr yn cynnal asesiad cychwynnol o fedrau llythrennedd a rhifedd ar gyfer pob dysgwr sy'n astudio am fwy na phum awr yr wythnos. Rhoddir cymorth arbenigol ychwanegol i ddysgwyr o bryd i'w gilydd, ond mae'r ffordd y mae aseswyr yn cywiro camgymeriadau gramadegol mewn gwaith cwrs yn anghyson, ac yn aml, maent yn colli cyfleoedd i ddefnyddio'r enghreifftiau ysgrifenedig hyn i helpu dysgwyr i wella'u medrau llythrennedd. Mewn rhai achosion, nid yw aseswyr yn meddu ar lefelau digon da o fedrau llythrennedd a rhifedd eu hunain. Er bod llawer o ddysgwyr ar lefel 5 yn meddu ar fedrau ymarferol da iawn, mae asesiadau cychwynnol yn dangos bod eu lefelau llythrennedd a rhifedd yn rhy isel iddynt ymgymryd â rolau rheoli yn effeithiol.
- 7 Mae darparwyr yn defnyddio ystod eang o ddulliau i asesu medrau technegol, cynorthwyo pob unigolyn a bodloni eu hanghenion unigol. Mewn rhai achosion, nid yw'r asesydd yn holi mewn ffordd ddigon trylwyr i sicrhau bod gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o wybodaeth sylfaenol. Mewn rhai achosion, mae aseswyr yn annog pobl i gymryd rhan mewn rhoi adborth i ddysgwyr. Wedyn, defnyddiant yr adborth hwn i gefnogi asesu a chynllunio rhagor o hyfforddiant ar gyfer y dysgwr.

- 8 Ar draws yr holl ddarparwyr SAB a DYYG yr ymwelwyd â nhw, roedd safon y gwaith a arsylwyd mewn portffolios yn amrywio gormod. Mae adborth ysgrifenedig gan aseswyr ym mhortffolios dysgwyr yn rhy amrywiol.
- 9 Mewn Dysgu yn y Gwaith, mae llawer o aseswyr yn ymweld â dysgwyr yn rheolaidd ac yn cadw mewn cysylltiad â'u dysgwyr rhwng ymweliadau trwy negeseuon testun, negeseuon e-bost a dros y ffôn. Mae rhai ymweliadau'n canolbwyntio gormod ar gwblhau gwaith papur Dysgu yn y Gwaith, derbyn gwaith ysgrifenedig a gosod targedau ar gyfer yr ymweliad nesaf. Yn yr achosion hyn, nid oes digon o drafod na phrofi gwybodaeth.
- 10 Mae mwyafrif y darparwyr yn hyrwyddo medrau Cymraeg a'i diwylliant mewn modd cadarnhaol. Caiff dysgwyr sy'n siarad Cymraeg eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg wrth siarad â defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg mamiaith, ond nid oes dull cyson. Ni chaiff unrhyw ddata ei gasglu na'i ddadansoddi am nifer y dysgwyr sy'n hyfforddi yn Gymraeg na thystiolaeth o effaith hyn ar y gweithlu. Cynigir cyfle i fwyafrif y dysgwyr naill ai ddilyn eu diploma yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg neu i gwblhau eu hyfforddiant a'u portffolios yn Saesneg, ond yn cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn gwirionedd, nid yw'r dewisiadau hyn bob amser yn bosibl oherwydd y diffyg deunyddiau Cymraeg a thiworiaid ac aseswyr sy'n siarad Cymraeg.
- 11 Yn gyffredinol, mae cyflogwyr yn hapus â gwybodaeth a gallu hyfforddwyr ac aseswyr o ddarparwyr SAB a DYYG pan fyddant yn cyflwyno cymwysterau lefel 2 a lefel 3. Fodd bynnag, mewn rhai o'r cartrefi gofal yr ymwelwyd â nhw, cwynodd rheolwyr fod lefel wael gwybodaeth hyfforddwyr ac aseswyr yn cyfrannu at dderbyn safonau isel wrth arsylwi ac asesu gwaith dysgwyr.
- 12 Ar lefel 5, ceir rhai enghreifftiau o hyfforddiant gwael a gwybodaeth wael aseswyr. Mewn rhai achosion, mae cymwysterau aseswyr ar lefel islaw'r cymhwyster y maent yn helpu dysgwyr i'w gyflawni.
- 13 Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio cyllidebau datblygu staff a chynlluniau datblygu'r gweithlu yn dda i sicrhau bod hyfforddwyr ac aseswyr ar gyfer lefel 2 a lefel 3 yn gymwys i'r lefel briodol. Pan fydd staff darparwyr hefyd yn gweithio yn y sector, mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio gwybodaeth a phrofiad diweddar o'r staff hyn yn effeithiol yn ystod digwyddiadau hyfforddiant mewn swydd. Fodd bynnag, nid yw rhai aseswyr ar gyfer cyrsiau lefel 5 wedi cael yr hyfforddiant na'r profiad perthnasol.
- 14 Mae beichiau achos ar gyfer aseswyr yn amrywio'n fawr a gall hyn arwain at ymweld â dysgwyr yn anaml. Mae ymweliadau mor anaml yn golygu nad yw dysgwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud cynnydd yn eu dysgu. Mae nifer sylweddol o aseswyr yn credu bod eu beichiau achos yn rhy fawr a'u bod dan bwysau gan ddarparwyr i gwblhau cymwysterau gyda'u dysgwyr mewn cyfnod mor fyr â phosibl.
- 15 Mewn llawer o achosion, nid yw cytundebau lefel gwasanaeth rhwng y dysgwr, yr asesydd a'r cyflogwr yn effeithiol, ac nid yw darparwyr yn manteisio ar fedrau a phrofiad cyflogwyr nac yn cynnwys cyflogwyr yn ddigon agos â'r dysgu a'r asesu yn y gwaith.

Argymhellion

Dylai darparwyr:

- A1 Gwella dealltwriaeth dysgwyr o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac addysgu ac asesu'r dulliau hyn
- A2 Gwella llythrennedd a rhifedd dysgwyr a'r cymorth, yr asesu a'r cynlluniau gweithredu ar gyfer y medrau hyn
- A3 Sicrhau bod gan aseswyr feichiau gwaith hylaw fel bod eu hymweliadau â hyfforddeion yn digwydd yn ddigon aml a'u bod yn ddigon hir
- A4 Gwneud yn siŵr bod aseswyr yn meddu ar wybodaeth a medrau ar lefelau addas i gynorthwyo dysgwyr yn llawn
- A5 Gwella cytundebau lefel gwasanaeth gyda chyflogwyr, a chynnwys cyflogwyr yn fwy mewn hyfforddi ac asesu dysgwyr

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A6 Cynorthwyo darparwyr i wella arferion asesu a hyfforddiant a chymhwysedd aseswyr trwy weithio gyda chyflogwyr, Cyngor y Gweithlu Addysg, Colegau Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i ddarparu digwyddiadau datblygiad proffesiynol
- A7 Gwella'r drefn ar gyfer casglu data ar gyrchfan dysgwyr

Safonau a gyflawnir gan ddysgwyr

- 16 Gellir gweld data a sylwadau bras ar gyfer cofrestriadau a deilliannau mewn AB a DYYG yn Atodiad 1.

Dilyniant

- 17 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n astudio am gymwysterau yn y sector hwn eisoes yn gweithio mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol oedolion ac yn parhau i gael eu cyflogi ganddynt ar ôl cymhwyso. Mae gan bob dysgwr DYYG swydd amser llawn.
- 18 Pan nad yw dysgwyr wedi gallu cael cyflogaeth â thâl, efallai byddant yn gweithio i sefydliadau elusennol fel Mind yn wirfoddol. Mewn un coleg yr ymwelwyd ag ef, mae dysgwyr lefel 5 yn defnyddio eu gwaith gwirfoddol i weithio tuag at eu Dyfarniad Ymarferwr Uwch. Eu nod yw cael cyflogaeth amser llawn i astudio'r credydau ychwanegol sydd eu hangen i ennill y dyfarniad Rheolwr Cofrestredig. Gallai gweithio yn y sector gwirfoddol fod yn addas ar gyfer gweithio tuag at rai unedau ar lefel uwch, fel eiriolaeth. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes gan wirfoddolwyr y cyfrifoldebau fyddai ganddynt pe baent yn gweithio mewn rôl ymarferwr uwch, ac felly, nid ydynt yn caffael y medrau sydd eu hangen i weithio ar y lefel hon.
- 19 Gall dysgwyr symud trwy lefelau cymwysterau pan fyddant yn dymuno. Ond, yn ymarferol, mae cymwysterau wedi eu cysylltu'n agos â medrau arferion gwaith dyddiol. Felly, mae dilyniant dysgwyr yn ddibynnol ar briodoldeb eu rolau swydd a pharodrwydd eu cyflogwr i ddarparu cyfleoedd iddynt gael profiad, cael hyfforddiant a dysgu, a chael eu hasesu ar gyfer cymhwyster uwch. Felly, oherwydd pwysau cystadleuol yn y gweithle, mae dilyniant i ddysgwyr yn aml yn anodd.
- 20 Felly, gall data cynnydd fod yn gamarweiniol, gan fod dilyniant yn llai cysylltiedig ag argaeledd cyrsiau neu hyfforddiant na swyddogaeth swydd a rôl. Gallai fod cyfnod sylweddol cyn y bydd dysgwr yn gwneud cais am swydd a fydd yn galluogi'r lefel cymhwyster nesaf. Heb symud i swydd ar lefel uwch, mae angen cymorth ac ymglymiad agos ar ddysgwr fel y gellir ymestyn ei rôl swydd bresennol cyn y gall hyfforddi i weithio i lefel broffesiynol uwch. Mae tensiwn rhwng addysg bersonol a datblygu medrau a'r angen am brofiad cadarn mewn maes gwaith cyn i ddilyniant cymwysterau ddigwydd. Mae camgyfatebiaeth hefyd rhwng dilyniannau mewn profiad personol a medrau a'r ffordd y caiff data ar ddeilliannau ei gasglu. Nid yw deilliannau data bob amser yn adlewyrchu cynnydd dysgwyr go iawn.
- 21 Gall colegau AB a darparwyr DYYG ddarparu manylion am ddilyniant ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n aros yn y coleg neu'n symud i DYYG. Gallai olrhain dilyniant yn anffurfiol gan aseswyr ddigwydd os yw'r dysgwr yn aros yn y sector. Fodd bynnag, nid yw'n rhoi darlun clir o ddilyniant. Nid oedd yr un darparwr yr ymwelwyd ag ef yn gallu rhoi manylion am gyrchfannau eu dysgwyr heblaw'r rhai a gofnodwyd ar gyfer anfon gwybodaeth i AdAS ar ddiwedd rhaglen astudio.
- 22 Ceir tystiolaeth anecdotaidd fod dysgwyr ar lefel 3 ac yn uwch, yn enwedig mewn SAB, yn parhau i astudio nyrsio ar lefel gradd, a gallent fod wedi gadael y diwydiant gofal.

- 23 Mae cyfyngiadau o ran cyllid mewn SABau a darparwyr DYYG fel ei gilydd yn golygu mai nifer fach iawn o gymwysterau ychwanegol a gynigir i ddysgwyr. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddysgwyr astudio pynciau ategol trwy adnoddau mewnol darparwyr, fel e-ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn SABau yn ennill cymwysterau ychwanegol fel codi a chario, hylendid bwyd a chymorth cyntaf tra byddant yn astudio eu prif gymhwyster. Mae'r rhain yn fedrau ychwanegol defnyddiol, ond gallai'r data ar gyfer y cyrsiau hyn wyro'r data cyrhaeddiad cyffredinol yn sylweddol ac awgrymu bod dilyniant yn well nag ydyw mewn gwirionedd.

Addysgu a hyfforddi

- 24 Mae dyluniad y diplomâu yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr roi eu dysgu ar waith. Caiff dysgwyr eu hannog i fyfyrion ar eu harferion dyddiol, gwella ar y rhain a chael achrediad am eu medrau. Ar gyfer yr holl ddiplomâu, caiff medrau a gwybodaeth flaenorol dysgwyr eu hasesu ar ddechrau eu rhaglen. Wedyn, bydd yr hyfforddwr a'r asesydd yn llunio cynllun dysgu unigol ar gyfer pob dysgwr. Bydd y cynllun dysgu cyffredinol hwn, sy'n cynnwys cynllun gweithredu manwl ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd, yn pennu'r hyfforddiant sydd ei angen i alluogi'r dysgwr i ennill ei lefel ddewisol o gymhwyster.
- 25 Mae rhywfaint o dystiolaeth fod dysgwyr sydd â chymwysterau gofal addysg uwch neu AB ond nad oes ganddynt y profiad ymarferol i weithio yn y sector, yn dychwelyd i astudio ar lefel 2, sy'n cynnwys yr elfen ymarferol.
- 26 Mae pob darparwr yn cyflwyno'r wybodaeth ddamcaniaethol sydd ei hangen mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys:
- gweithdai
 - sesiynau un i un
 - sesiynau galw i mewn
 - deunyddiau adnodd mewnol
 - cyfeirio at adnoddau priodol eraill
- 27 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn gweithio'n dda gyda chyflogwyr i sicrhau bod addysgu'n digwydd ar adegau sy'n gyfleus i'r cyflogwr a'r dysgwr fel ei gilydd. Yn yr achosion gorau, ceir dulliau hyblyg ar gyfer cyflwyno ac asesu, i fodloni anghenion y dysgwr a'r cyflogwr, fel trefnu ymweliadau gan asesydd gyda'r nos ac ar y penwythnos i addasu yn ôl patrymau sifft.
- 28 Rôl asesydd yn ystod y cyfnod y mae dysgwr gydag ef, yw gweithio gyda'r dysgwr a'r cyflogwr i nodi'r hyn y mae dysgwr yn ei wybod ac yn gallu ei wneud. Bydd yr asesydd yn nodi unrhyw fylchau mewn gwybodaeth ac yn gweithio gyda'r dysgwr ar gynllun dysgu i drefnu rhagor o hyfforddiant a chymorth er mwyn i'r dysgwr allu ennill y wybodaeth a'r medrau sydd eu hangen. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, mae asesydd yn gweithio'n rhy agos yn ôl y gofynion cymhwyster sylfaenol yn hytrach nag ymestyn y dysgwr i ehangu'r medrau a'r dulliau sydd eu hangen i weithio gyda phobl sy'n derbyn gofal.
- 29 Dywed mwyafrif dysgwyr lefel 2 a lefel 3 eu bod yn cael lefel dda o gymorth gan eu hasesydd. Fodd bynnag, ni roddir digon o wybodaeth i ddysgwyr am gyrsiau a'r hyn

sy'n ofynnol ganddynt cyn iddynt gofrestru. Nid yw'r hyfforddiant a gyflwynir ar gyfer cymhwyster yn seiliedig ar gymhwysedd yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith fel ei gilydd, a thrwy gyfuniad o astudio cyfeiriedig a hunangyfeiriedig, yn aml yn cael ei esbonio'n llawn i ddysgwyr a'u cyflogwyr, na'i ddeall ganddynt. Mae lleiafrif o ddysgwyr, yn enwedig ar lefel 5, yn anhapus â'r ffordd y caiff elfennau gwybodaeth y diploma eu haddysgu. Byddai'n well gan y dysgwyr hyn gael y wybodaeth gan eu haseswyr a'u hyfforddwyr, yn hytrach na'r hyn y maent yn ei ystyried yn orddibyniaeth ar eu cyflogwr a'u hymchwil eu hunain. Dywedodd un dysgwr lefel 5, wrth siarad am ei hasesydd, "ni ddysgais unrhyw beth ganddi mewn gwirionedd" a bod "yn rhaid i mi ddarganfod llawer drosaf fi fy hun". Roedd dysgwyr eraill lefel 5 yn honni bod mwyafrif eu gwaith yn cael ei wneud trwy gwblhau aseiniadau a chydabod dysgu blaenorol o gymwysterau rheoli blaenorol. Mewn rhai achosion, caiff dysgwyr achrediad am yr hyn y maent yn ei wybod eisoes o ganlyniad, a cholllir cyfleoedd i ymestyn eu gwybodaeth a'u medrau. Dywedodd rhai dysgwyr fod hyn yn wir ar lefel 3 hefyd.

- 30 Mae addysgu dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn aneffeithiol ar bob lefel yn y mwyafrif o achosion. Mae safon gwaith dysgwyr yn eu portffolios yn rhy amrywiol, a dim ond mewn ffordd aneglur y gall dysgwyr ar bob lefel ddisgrifio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'i werth mewn lleoliad gofal. Mewn rhai achosion, roedd esboniadau dysgwyr o'r modd yr oeddent yn cymhwyso dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddylunio pecynnau gofal ar gyfer pobl sy'n derbyn gofal yn dangos camddealltwriaeth o'r egwyddor bwysig hon. Er enghraifft, nid yw llawer o ddysgwyr yn deall bod angen iddynt ystyried cefndir a diddordebau pobl er mwyn teilwra gofal i'r unigolyn.

Llythrennedd a rhifedd

- 31 Mae dysgwyr mewn SAB fel arfer yn astudio am lai na phum awr yr wythnos, ac felly nid oes angen asesiad diagnostig ffurfiol arnynt o'u medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o SABau yn cynnig rhyw fath o asesiad o fedrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. Mae hyfforddwyr ac aseswyr yn rhoi cymorth cyffredinol i ddysgwyr â llythrennedd a rhifedd, sy'n eu helpu i wneud cynnydd. Mewn rhai achosion, caiff dysgwyr eu cyfeirio at staff medrau sylfaenol arbenigol SAB am gymorth mwy targedig.
- 32 Caiff pob dysgwr DYYG asesiad o'u medrau llythrennedd a rhifedd ar ddechrau eu rhaglen. Gydag ychydig iawn o eithriadau, canfu darparwyr DYYG fod lefel llythrennedd a rhifedd eu dysgwyr ar lefel 2 yn is na'r hyn sy'n ofynnol gan eu fframwaith.
- 33 Mae angen medrau llythrennedd a rhifedd ar ddysgwyr bob dydd yn eu gweithle. Maent yn cyfathrebu â chydweithwyr a chleientiaid, yn ysgrifennu adroddiadau ac yn cwblhau gohebiaeth berthnasol arall fel cofnodion arsylwi. Gallai gweinyddu cyffuriau, gwneud a chofnodi arsylwadau meddygol a sicrhau cydbwysedd hylif fod yn rhan o drefn ddyddiol dysgwyr. Caiff y medrau hyn eu hasesu fel rhan o'r diploma. Fodd bynnag, mae'r ffordd y caiff camgymeriadau gramadegol aseswyr eu cywiro yn anghyson, ac maent yn aml yn colli cyfleoedd i ddefnyddio'r enghreifftiau ysgrifenedig hyn i helpu dysgwyr i wella eu medrau llythrennedd.

Sgiliau Hanfodol Cymru

- 34 Fel rhan o'u prentisiaeth, mae pob un o'r dysgwyr DYYG yn dilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cymhwyso Rhif, Cyfathrebu a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ar y lefel sy'n ofynnol ar gyfer eu fframwaith penodol.
- 35 Mynegwyd pryder gan ddarparwyr sy'n cynnig diploma lefel 5 am lefel gychwynnol medrau eu dysgwyr lefel 5. Mae'r fframwaith DYYG yn pennu bod yn rhaid i ddysgwyr gyflawni Cyfathrebu ar lefel 3, Cymhwyso Rhif ar lefel 2 a TGCh ar lefel 1. Mewn un SAB, cynigir lefel uchel o gymorth i'w dysgwyr lefel 5, lle mae asesiadau cychwynnol yn dangos canlyniadau lefel 1 neu'n is ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd ar gyfer tua hanner y dysgwyr hyn, er bod medrau ymarferol yn dda. Esboniodd darparwr DYYG sydd â 160 o ddysgwyr yn dilyn rhaglen lefel 5 ar hyn o bryd fod tua hanner y dysgwyr hyn wedi dechrau eu rhaglen â'u medrau llythrennedd a rhifedd islaw lefel 1.
- 36 Mae cyllid SAB yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ochr yn ochr â'u diploma neu fel rhan o Fagloriaeth Cymru. Mae hyn yn golygu bod mesur o gynnydd dysgwyr mewn medrau hanfodol. Adeg yr ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn, yn y SABau yr ymwelwyd â nhw, nid oedd yr un mecanwaith ffurfiol yn bodoli i brofi gwelliant dysgwyr yn y meysydd hyn ar ddiwedd y rhaglen. Fodd bynnag, mewn DYYG, mae cwblhau'r fframwaith yn llwyddiannus yn dangos bod dysgwyr wedi cwblhau eu cymwysterau medrau hanfodol i'r lefel ofynnol.

Astudiaeth achos: Cymorth ychwanegol i alluogi myfyriwr dyslecsig i gwblhau cymhwyster a gwneud cynnydd i'r lefel nesaf

Cyd-destun

Dysgwr Safon Uwch 2 sydd â math difrifol o ddyslecsia.

Strategaeth a chymau gweithredu

Cyfeiriodd yr asesydd y dysgwr at Gymorth i Ddysgwyr y SAB, lle cwblhawyd asesiad o angen. O ganlyniad i hyn, roedd y dysgwr yn cael cymorth ychwanegol gan y tîm bob pythefnos. Yn y cyfamser, rhoddodd yr asesydd gymorth i'r dysgwr gwblhau ei phortffolio, ac wrth i amser fynd rhagddo, bu gwelliant yn hyder y dysgwr yn ei gallu.

Addasodd yr asesydd dystiolaeth angenrheidiol trwy ysgrifennu iddi, darparu cwestiynau ar lafar, a defnyddio recordiadau sain o'i hatebion. Rhoddwyd y rhain ar gryno ddisg ar gyfer ei phortffolio. Defnyddiwyd tystiolaeth anysgrifenedig cymaint â phosibl.

Canlyniad

Llwyddodd y dysgwr i gwblhau diploma lefel 2 yn y raddfa amser gytûn, ac mae hi wedi symud ymlaen i lefel 3 erbyn hyn.

Asesu

- 37 Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau asesu er mwyn cynorthwyo pob dysgwr a bodloni eu hanghenion unigol, gan gynnwys: tystlythyrau tystion; llyfrau gwaith; hyfforddiant cyfrifiadurol; holi ar lafar; arsylwadau uniongyrchol; a thrafodaethau myfyriol a phroffesiynol. Fodd bynnag, mae gormod o ddiwyddiadau ar gwestiynau a gymerwyd yn uniongyrchol o'r meini prawf perfformiad, yn hytrach na defnydd creadigol o aseiniadau i brofi dysgu. Mewn rhai achosion, nid yw cwestiynau aseswyr yn ddigon trylwyr i sicrhau bod gan ddysgwyr amgyffrediad da o wybodaeth sylfaenol.
- 38 Mae asesu cymhwysedd bob dydd yn gallu bod yn heriol, yn enwedig pan na fydd pobl yn gallu neu'n anfodlon caniatáu i ddysgwyr gael eu hasesu yn ymgymryd â thasgau a rhyngweithio personol. O ganlyniad, efallai na fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n briodol mewn rhai o'r meysydd gofal pwysicaf y maent yn eu darparu.
- 39 Ar draws pob SAB a darparwr DYYG yr ymwelwyd â nhw, roedd safon y gwaith a arsylwyd mewn portffolios yn amrywio gormod. Roedd gwaith dysgwyr yn amrywio o nodiadau byr nad oeddent yn rhoi digon o fanylion i ddangos cymhwysedd, i ysgrifennu traethodau cynhwysfawr. Roedd portffolios dysgwyr mewn un darparwr DYYG mawr yn fanwl ac yn dangos ffocws da ar fyfyrion a dealltwriaeth o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir am bron pob un o'r darparwyr eraill yr ymwelwyd â nhw.
- 40 Mae adborth ysgrifenedig ym mhortffolios dysgwyr yn rhy amrywiol. Yn yr achosion gorau, mae'n adeiladol ac yn rhoi syniad clir i ddysgwyr o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, mae llawer o achosion lle nad yw'r asesydd yn adolygu'r gwaith a gwblhawyd gyda'r dysgwr, neu ble nad oes llawer o drafod am hyn. Mae'r diffyg adolygu hwn yn arwain at golli cyfleoedd dysgu a myfyrio i'r dysgwr.
- 41 Nid yw pobl sy'n derbyn gofal fel arfer yn cymryd rhan mewn rhoi adborth i ddysgwyr yn dilyn eu hasesiad. Mae rhai darparwyr yn credu nad yw'r math hwn o ymglymiad yn fuddiol a'i fod yn gallu achosi i ddysgwyr golli diddordeb. Mae hyn yn groes i argymhellion y sefydliadau dyfarnu a Chyngor Gofal Cymru. Mewn rhai achosion, mae aseswyr yn annog preswylwyr i roi adborth, a defnyddiant hyn yn dda wrth gynllunio rhagor o hyfforddiant ac asesiadau.
- 42 Mewn DYYG, mae llawer o aseswyr yn ymweld â dysgwyr yn rheolaidd ac yn cadw mewn cysylltiad â'u dysgwyr rhwng ymweliadau trwy anfon negeseuon testun, negeseuon e-bost a ffonio. Yn ystod ymweliadau, mae llawer o aseswyr yn rhannu'r arfer dda a arsylwyd mewn cartrefi gofal eraill â'u dysgwyr hefyd. Fodd bynnag, mae rhai ymweliadau'n canolbwyntio gormod ar gwblhau gwaith papur DYYG, derbyn gwaith ysgrifenedig a gosod targedau ar gyfer yr ymweliad nesaf. Yn yr achosion hyn, nid oes digon o drafod na phrofi gwybodaeth. Nid yw rhai llyfrau gwaith wedi eu dyddio, neu maent yn cynnwys gwybodaeth anghywir.

Yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, a chydarddoldeb ac amrywiaeth

- 43 Mae diffyg data am nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu gofal. Mae'n hanfodol bod staff yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â phobl sy'n agored i niwed sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Mae mwyafrif o ddarparwyr yn hyrwyddo medrau Cymraeg a'i diwylliant yn gadarnhaol. Mae un darparwr DYYG yn cynnig cwrs e-ddysgu Cymraeg i bob dysgwr, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd.
- 44 Er mis Awst 2013, mae Llywodraeth Cymru wedi casglu data ar gyrhaeddiad blaenorol pob dysgwr mewn cymwysterau Cymraeg mamiaith neu ail iaith. Mae hyn yn cynnig procsi i alluoedd Cymraeg y rhai sy'n ymgymryd â hyfforddiant.
- 45 Fodd bynnag, mae diffyg rhaglenni hyfforddi ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, a diffyg deunyddiau hyfforddi Cymraeg. Mae llawer o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn dewis cwblhau eu portffolios diploma trwy gyfrwng y Saesneg. Mae rhai ohonynt yn dewis cael asesiadau ymarferol gan ddefnyddio'r iaith Gymraeg, yn enwedig pan fyddant yn gweithio mewn amgylcheddau Cymraeg gyda phobl sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Fodd bynnag, nid yw asesu yn Gymraeg yn aml yn bosibl yn sgil diffyg staff asesu sy'n siarad Cymraeg. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi strategaeth 'Mwy na Geiriau' a phhecyn gwybodaeth ar gyfer staff, a ddatblygwyd i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ar gyfer y rhai sydd angen derbyn gofal gan ddefnyddio'r Gymraeg, neu sy'n dewis gwneud hynny, (Llywodraeth Cymru, 2012). Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ynglŷn â fframwaith strategol dilynol i hyn.
- 46 Ar hyn o bryd, caiff dysgwyr sy'n siarad Cymraeg eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg wrth siarad â phobl sy'n cael gofal sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith, ond nid yw'r dull hwn yn systematig ac ni chaiff ei effaith ei fesur. Mae rhai SABau yn cynnig 'Cymraeg yn y Gweithle' fel cymhwyster ychwanegol. Yn ychwanegol, caiff dysgwyr eu hannog gan eu hyfforddwyr a'u haseswyr i ddefnyddio cyfarchion ac ymadroddion Cymraeg gyda phreswylwyr. Mae adnoddau dwyieithog ar gael i bob dysgwr, er enghraifft terminoleg Cymraeg/Saesneg. Ychydig o becynnau ymsefydlu yn unig sy'n ddwyieithog.
- 47 Yn ystod y cyfnod ymsefydlu, mae pob darparwr yn trafod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle gyda dysgwyr. Mae rhai darparwyr yn cynnig cymhwyster ychwanegol gan ddefnyddio cynlluniau gwaith Agored Cymru ac yn nodi cyfleoedd i drafod cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhellach. Mae adolygiadau o gynnydd dysgu yn y gwaith yn cynnig cyfleoedd i drafod cydraddoldeb ac amrywiaeth, ond mae ansawdd y trafodaethau hyn yn amrywio gormod ac yn aml yn colli cyfleoedd i ymestyn dealltwriaeth dysgwyr o'r modd y mae'r testun hwn yn ymwneud â datblygu safonau gofal da. Mae un darparwr DYYG yn cynnig cwrs e-ddysgu cydraddoldeb ac amrywiaeth i bob un o'i ddysgwyr, a ddatblygwyd gan staff mewnol darparwr.

Arweinyddiaeth a rheolaeth, a sicrhau ansawdd

- 48 Mae'r egwyddorion asesu a gytunwyd rhwng Sgiliau Gofal a Datblygu a'r sefydliadau dyfarnu ar gyfer y cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol, yn datgan bod yn rhaid i aseswyr ar gyfer unedau'r Fframwaith Cymwysterau a Chwricwlwm gael cymhwyster addas, yn ogystal â chymhwysedd a gwybodaeth alwedigaethol. Mae holl staff addysgu SABau bellach wedi eu cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, a bydd aseswyr DYYG wedi eu cofrestru o 1 Ebrill 2017.
- 49 Mae cymhwysedd a gwybodaeth alwedigaethol yn golygu bod yn rhaid i bob asesydd allu cyflawni'r gofynion llawn o fewn yr uned(au) cymhwysedd y maent yn ei asesu/eu hasesu. Gall hyn olygu bod darparwyr yn defnyddio mwy nag un asesydd ar gyfer pob cymhwyster, i sicrhau bod yr asesydd yn gymwys mewn uned benodol. Cynhelir cymhwysedd galwedigaethol trwy gofrestru proffesiynol a/neu ddatblygiad proffesiynol parhaus. Cyfrifoldeb darparwyr yw sicrhau bod eu hyfforddwyr a'u haseswyr yn meddu ar y cymwysterau angenrheidiol.
- 50 Mae cyflogwyr yn hapus ar y cyfan â gwybodaeth a gallu hyfforddwyr ac aseswyr o SAB a darparwyr DYYG pan fyddant yn cyflwyno cymwysterau lefel 2 a lefel 3. Mae pob un o'r aseswyr yn meddu ar gymwysterau addas gyda phrofiad uniongyrchol o ofal neu nyrsio, ac maent yn parhau i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus. Mae un cyflogwr wedi symud y contract hyfforddi deirgwaith dros gyfnod o 15 mlynedd i gadw'r un hyfforddwr ac asesydd, y maent yn ystyried ei bod yn gymwys a thrylwyr wrth addysgu ac asesu eu dysgwyr. Fodd bynnag, mewn rhai o'r cartrefi gofal yr ymwelwyd â nhw, roedd rheolwyr yn cwyno bod lefel wael gwybodaeth hyfforddwyr ac aseswyr yn cyfrannu at dderbyn safonau isel wrth arsylwi ac asesu gwaith dysgwyr.
- 51 Ar lefel 5, mae rhai enghreifftiau o hyfforddiant gwael a gwybodaeth wael asesydd a gallu i farcio gwaith dysgwyr yn effeithiol. Dywedodd un asesydd wrth ei hymgeisydd lefel 5 "rydych chi'n gwybod mwy na fi" a gofynnodd am ganiatâd i ddefnyddio portffolio'r dysgwr o gymhwyster rheoli blaenorol gyda dysgwyr eraill yn ei baich achos. Nid oes gan yr asesydd penodol hwn gefndir mewn gofal, ond mae wedi ennill ei gwybodaeth trwy weithio fel hyfforddwr/asesydd. Mewn rhai achosion, mae cymwysterau aseswyr ar lefel islaw'r cymhwyster y maent yn helpu dysgwyr i'w ennill.
- 52 Mewn rhai achosion, yn enwedig ar lefel 5, nid yw darparwyr yn sicrhau eu bod yn darparu goruchwyliaeth addas ar gyfer asesydd nad oes ganddo wybodaeth a chymhwysedd llawn mewn meysydd y mae'n eu hasesu. Os na all y darparwr wneud hyn, mae sefydliadau dyfarnu yn amodi, fel rhan o'u proses sicrhau ansawdd, y dylai darparwyr sicrhau defnydd hyfforddwr neu asesydd arall ar gyfer yr uned benodol hon. Yn yr achosion gorau, mae darparwyr yn gwneud hyn trwy ddefnyddio siaradwyr gwadd.
- 53 Mae beichiau achos ar gyfer aseswyr yn amrywio'n fawr. Mewn rhai achosion, mae ymweliadau'n digwydd yn anaml iawn oherwydd niferoedd mawr y dysgwyr sydd wedi eu neilltuo i'r asesydd. Yn yr achos gwaethaf a arsylwyd, roedd dysgwr wedi cyfarfod â'r asesydd bedair gwaith yn unig mewn 18 mis. Mae ymweliadau mor

anaml yn golygu nad yw'r dysgwyr hyn yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud cynnydd yn eu dysgu. Mae eu dysgu'n dameidiog ac nid yw'n cael ei adalw'n hawdd.

- 54 Mae llawer o ddysgwyr yn mynychu gweithdai ar safleoedd darparwyr ac yn cael hyfforddiant un i un gan eu haseswyr i ddatblygu eu gwybodaeth ddamcaniaethol. Caiff y ffordd y mae'r dysgwyr yn cymhwyso'r wybodaeth ddamcaniaethol hon ei hasesu yn eu hamgylchedd gweithio. Yn yr enghreifftiau gorau, cynhelir gwiriadau ar ddealltwriaeth dysgwyr yn ystod trafodaeth broffesiynol.
- 55 Mae lleiafrif o aseswyr yn credu bod eu beichiau achos yn rhy fawr a'u bod dan bwysau gan ddarparwyr i gwblhau cymwysterau gyda'u dysgwyr mewn cyfnod mor fyr â phosibl. Ar bob lefel, nid oedd tua hanner y portffolios y cymerwyd samplau ohonynt a dysgwyr a holwyd yn ystod yr arolwg hwn yn gallu rhoi diffiniad digon gwybodus i arolygwyr o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ond roedd aseswyr wedi cymeradwyo'r uned hon fel un dderbyniol.
- 56 Ar lefel 5, lle bydd dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am reoli dysgwyr eraill, mae rhai portffolios yn canolbwyntio gormod ar aseiniadau, ac roedd profi gwybodaeth a chymhwysedd yn annigonol.
- 57 Mae perthynas darparwyr â chyflogwyr yn hanfodol i gyflwyno a chyflawni diplomâu, gan fod angen i gyflogwyr gymryd rhan yn agos â'r dysgu a'r asesu ar-lein i atgyfnerthu dysgu ymarferol. Pan fydd y berthynas rhwng darparwyr a chyflogwyr yn gweithio'n dda, mae darparwyr yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chyflogwyr i adolygu'r ffordd y caiff y ddarpariaeth ei rheoli. Yn yr achosion gorau, caiff y tiwtor/yr asesydd a'r dysgwyr eu cynnwys yn y cyfarfodydd hyn. Mae rhai darparwyr DYYG yn ffonio eu cyflogwyr yn rheolaidd hefyd, i wirio ansawdd y ddarpariaeth a datrys unrhyw faterion a nodwyd yn brydlon. Mewn un darparwr DYYG, mae nifer uchel o ddysgwyr o un grŵp gofal. Mae cyfarwyddwyr a rheolwyr hyfforddi ar gyfer y rhanbarth yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r ffordd y caiff hyfforddiant ei gyflwyno ac anghenion ac mae hyn wedi helpu'r darparwr i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion hyfforddi'r cyflogwyr.
- 58 Yn aml, nid yw cytundebau lefel gwasanaeth rhwng y dysgwr, yr asesydd a'r cyflogwr yn effeithiol. Anaml y mae trefniadau'n amlinellu disgwyliadau clir a chytûn ynglŷn â nifer yr ymweliadau gan asesydd, nac ymglymiad gofynnol rheolwr y cartref gofal a staff eraill o ran cyflwyno hyfforddiant.
- 59 Nid yw cytundebau lefel gwasanaeth yn fuddiol o ran amlinellu gweithdrefnau mewn amgylchiadau lle mae'n amhriodol i aseswyr arsylwi dysgwyr yn cyflwyno gofal personol pan na fydd unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau yn fodlon cymryd rhan. Mewn rhai achosion, nid yw cyflogwyr yn cymryd rhan mewn adolygiadau cynnydd na chynllunio unedau dewisol, arsylwadau ac asesiadau. Yn yr achosion gwaethaf, mae aseswyr yn trefnu ymweliadau heb roi gwybod i'r cyflogwr.
- 60 Dywed rhai darparwyr fod y cyflogwr yn amharod i fod yn bartner gweithredol mewn dysgu. Fodd bynnag, mae rhai cyflogwyr yn credu nad yw'r asesydd yn defnyddio medrau a gwybodaeth cyflogwyr yn effeithiol nac yn eu galluogi i gymryd rhan weithredol mewn hyfforddi ac asesu.

- 61 Mae gan bob darparwr eu systemau sicrhau ansawdd eu hunain, y maent yn eu defnyddio'n effeithiol ar y cyfan i fesur ansawdd rheoli eu rhaglenni, gan gynnwys rhai partneriaid ac isgontractwyr. Fodd bynnag, nid yw pob asesydd yn alwedigaethol gymwys i gyflwyno pob uned o'r diploma ac mae defnyddio aseswyr eraill yn angenrheidiol, er nad yw hyn yn digwydd bob amser.
- 62 Mae darparwyr DYYG yn defnyddio data meincnodi'n dda i fonitro perfformiad eu partneriaid a'u hisgontractwyr. Mae uwch reolwyr yn monitro ansawdd a deilliannau rhaglenni ac yn delio ag unrhyw danberfformio mewn modd priodol.
- 63 Mewn SAB a darparwyr DYYG fel ei gilydd, cynhelir cyfarfodydd tîm yn rheolaidd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn galluogi'r tîm i rannu arfer dda a nodi meysydd y mae angen eu gwella.
- 64 Mae darparwyr yn cael safbwyntiau dysgwyr a chyflogwyr mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, gan gynnwys holiaduron ac yn ystod adolygiadau cynnydd. Caiff y safbwyntiau hyn eu defnyddio'n dda gan ddarparwyr i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni. Mewn un SAB, mae hyn wedi arwain at newid amseroedd gweithdai fel eu bod yn fwy cyfleus erbyn hyn i ddysgwyr a'u cyflogwyr. Mae darparwr arall wedi newid amseroedd rhaglenni ymsefydlu fel eu bod yn addas ar gyfer anghenion cyflogwyr.

Astudiaeth achos: SAB a chyflogwr yn dyfeisio strategaeth i gydnabod dysgu blaenorol i osgoi dyblygu hyfforddiant

Cyd-destun a strategaeth

Roedd dysgwyr a oedd wedi eu cofrestru ar y cymhwyster gofal gyda'r SAB, ac yn mynychu hyfforddiant mewnol gyda'r cyflogwr ar weinyddu meddyginiaeth, yn dyblygu gwaith. Wrth gwblhau'r llawlyfr meddyginiaeth, daeth yn amlwg nad oedd unrhyw gymariaethau i gynllunio'r hyfforddiant yn unol â'r Fframwaith Cymwysterau a Chwricwlwm. O ganlyniad, roedd yn rhaid i'r dysgwyr astudio elfen gwybodaeth ac arsylwadau'r uned feddyginiaeth eto.

Aeth un aelod o'r tîm SAB ati i weithio gyda'r cyflogwr i ddadansoddi a datblygu strategaeth y gellid ei defnyddio ar gyfer y cymhwyster a llyfryn hyfforddi'r cyflogwr.

Fe wnaethant ddefnyddio dulliau ymarferol i ddarparu ar gyfer y dysgwr a oedd yn ddefnyddiol a hawdd i'w defnyddio i bawb dan sylw. Roedd hyn hefyd yn sicrhau bod y safonau'n cael eu bodloni a bod y dysgwr yn cael ei asesu'n briodol fel bod ganddo'r medrau priodol ar gyfer y rôl. Rhoddodd y SAB becyn hyfforddiant ac ymwybyddiaeth e-ddysgu ar waith a darparu prawf ar-lein.

Deilliannau

Mae dysgwyr yn cwblhau'r pecyn e-ddysgu erbyn hyn, ac mae angen iddynt gyflawni 100% i lwyddo yn yr uned. Wedyn, rhoddir gwybod i swyddog hyfforddi'r cyflogwr trwy neges e-bost fel y gall roi tystysgrif a datganiad tyst i'r dysgwr. Wedyn, gall asesydd y SAB ddefnyddio'r dystysgrif a'r datganiad tyst hyn i gydnabod dysgu blaenorol tuag at gyrhaeddiad dysgwyr o ran ennill y cymhwyster llawn.

- 65 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn defnyddio cyllidebau datblygu staff a chynlluniau datblygu'r gweithlu yn dda i sicrhau bod hyfforddwyr ac aseswyr yn gymwys i'r lefel briodol. Mae sefydliadau dyfarnu'n gwirio lefelau cymwysterau a phrofiad yn ystod yr ymweliadau sicrhau ansawdd hefyd. Mae aseswyr a hyfforddwyr yn mynychu goruchwyladau rheolaidd yn unol â gofynion y Cyngor Sgiliau Sector. Fodd bynnag, ni chaiff aseswyr eu monitro na'u rheoleiddio'n ffurfiol ar hyn o bryd.
- 66 Mae darparwyr yn sicrhau bod eu haseswyr yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys mynychu hyfforddiant diweddarau a gweithdai sy'n benodol i sector. Ceir tystiolaeth o ddefnydd da o hyfforddiant sydd ar gael trwy Bartneriaethau Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Yn yr achosion gorau, mae darparwyr yn aelodau o Rwydwaith Gofal Cymru. Eir ati i annog pobl i fynychu diweddariadau AGGCC. Mae staff mewn un darparwr DYYG, sy'n cymryd rhan mewn cyflwyno'r rhaglen lefel 5, yn cael cymorth gan hyfforddwr sydd hefyd yn arolygydd gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal.
- 67 Cynhelir cyfarfodydd tîm yn rheolaidd i ledaenu'r wybodaeth o gynadleddau a sesiynau hyfforddi allanol, a rhannu arfer dda. Pan fydd staff darparwyr yn gweithio yn y sector hefyd, mae darparwyr yn sicrhau bod gwybodaeth a phrofiad diweddar y staff hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol yn ystod digwyddiadau hyfforddi mewnol.

Astudiaeth achos: Mae darparwr SAB yn trefnu hyfforddiant arbenigol i wella cymhwysedd aseswyr

Cyd-destun a strategaeth

Roedd dysgwr yn dilyn uned 'Paratoi ar gyfer Technegau Bwydo Estynedig, a'u cyflawni', a nodwyd gan wiriwr allanol y SAB nad oedd yr asesydd yn gymwys i gyflwyno'r uned.

Cysylltodd cydlynedd cymwysterau'r SAB â'r sefydliad dyfarnu, a ddywedodd nad oedd wedi ei bennu'n uned arbenigol, felly nid oedd yn ofynnol i gymwysterau gael eu cyflwyno gan asesydd arbenigol. Yn ystod yr ymweliad sicrhau ansawdd allanol, bu cydlynedd y SAB a'r gwiriwr allanol yn trafod cynnwys yr uned wybodaeth hon a manylder y wybodaeth sydd ei hangen i gyflwyno'r uned. Cytunwyd bod gwaith y dysgwr ar gyfer yr uned yn gyfyngedig ac y dylai'r asesydd gael mwy o wybodaeth gefndirol i gyflwyno'r uned. Awgrymodd y gwiriwr allanol y dylai'r asesydd a'r gwiriwr mewnol gael hyfforddiant perthnasol i'w galluogi i fod yn gymwys i gyflwyno'r cymhwyster. Hefyd, dywedodd y gwiriwr allanol y dylai'r uned gael ei marcio yn y cyfnod hwn gan ymarferwr cymwys yn y maes gwaith hwn.

Camau gweithredu a chanlyniad

Mynychodd yr asesydd sesiynau hyfforddi mewnol ac allanol ar gyfer yr uned, a llwyddodd i ennill cymhwyster. Erbyn hyn, gall yr asesydd gynnal asesiad cymwys yn seiliedig ar wybodaeth o'r uned benodol 'Paratoi ar gyfer Technegau Bwydo Estynedig, a'u cyflawni'. Mae'r gweithredu hwn wedi gwella gallu'r asesydd i ymgymryd â'r rôl ac wedi ehangu'r cyfleoedd hyfforddi a gynigir gan y SAB.

Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar:

- ymweliadau â SABau
- ymweliadau â darparwyr DYYG
- ymweliadau â chartrefi gofal preswyl
- cyfweliadau â dysgwyr a rheolwyr cartrefi gofal
- craffu ar waith dysgwyr
- holiaduron i ddysgwyr, aseswyr a rheolwyr cartrefi gofal

Dyma'r SABau yr ymwelwyd â nhw/y gwnaed arolwg ohonynt fel rhan o'r astudiaeth hon:

- Grŵp Llandrillo Menai
- Grŵp Castell-nedd Port Talbot
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria

Dyma'r darparwyr DYYG (deiliaid contract LIC ac isgontractwyr) yr ymwelwyd â nhw/y gwnaed arolwg ohonynt fel rhan o'r astudiaeth hon:

- Cwmni Hyfforddiant Cambrian
- Consortiwm DYYG Canolbarth Cymru (Hyfforddiant Ceredigion)
- Consortiwm Sgiliau Canolbarth a Gogledd Cymru
- Vocational Skills Partnership
- Sirius
- Coleg Caerdydd a'r Fro: y Gynghrair Sgiliau Ansawdd
- Sgiliau a Chyflogaeth ITEC
- A4E Wales
- T2 Group
- Acorn Training
- ACT
- ESG Cymru
- Hyfforddiant Torfaen
- Academi Sgiliau Cymru (De Orllewin) Penfro

Ymwelodd arolygwyr â 12 darparwr gofal hefyd, a buont yn cyfweld â dysgwyr, staff eraill a rheolwyr. Fe wnaethant siarad ag ystod o reolwyr a pherchnogion darparwyr gofal eraill mewn grwpiau bach hefyd.

Cynhaliwyd yr ymweliadau cychwynnol ar gyfer yr adroddiad hwn yn 2013, ond adolygwyd y dystiolaeth, ac fe'i diweddarwyd ble roedd angen, yn 2015.

Rhestr cyfeiriadau:

Cymdeithas Alzheimer (2015) *Dementia 2014: Opportunity for change*. London: Alzheimer's Society. [Online]. Ar gael o: https://www.alzheimers.org.uk/site/scripts/download_info.php?fileID=2317 [Defnyddiwyd 20 Ionawr 2016].

City and Guilds (2015) *Health and Social Care (4222)*. Ar gael o: <http://www.cityandguilds.com/qualifications-and-apprenticeships/health-and-social-care/care/4222-health-and-social-care#tab=information> [Defnyddiwyd 20 Ionawr 2016].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/general/131009nmsolderadultscy.pdf> [Defnyddiwyd 20 Ionawr 2016].

Llywodraeth Cymru, Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant (2012) *Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/dhss/publications/121121narrativecy.pdf> [Defnyddiwyd 20 Ionawr 2016].

Llywodraeth Cymru (2015a) *Mesurau canlyniadau dysgwyr ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned: 2013/14*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/statistics/2015/150331-learner-outcome-measures-further-education-work-based-adult-community-learning-2013-14-en.pdf> [Defnyddiwyd 20 Ionawr 2016].

Llywodraeth Cymru (2015b) *Detholiad data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC)*. Heb ei gyhoeddi.

Atodiad 1

Mae data ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol oedolion wedi ei gynnwys ym maes pwnc iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a'r sector gofal. Er bod y data ar gael yn gyhoeddus trwy ei strwythuro fel hyn, nid yw'n darparu gwybodaeth am y cyfraddau cyrhaeddiad ar draws y diplomâu mewn gofal. Mae maes pwnc y sector hefyd yn cynnwys data ar gyrsiau'n ymwneud â gyrfaedd yng ngwasanaeth yr heddlu, er enghraifft, a llawer o gymwysterau atodol eraill yn ymwneud ag arbenigeddau penodol sydd, er eu bod yn bwysig i ddysgwyr, yn gwyro'r farn hon am y data ac yn gwneud iddo ymddangos yn uwch nag ydyw mewn gwirionedd. Mae data ar gyfer diplomâu ar lefelau 2, 3 a 5 yn dangos nad yw cyfraddau llwyddo'n uchel o gymharu â'r rheiny mewn meysydd dysgu eraill, er eu bod yn gwella.

Mewn DYYG, bu cynnydd mawr iawn yn nifer y dysgwyr sy'n gorffen eu rhaglenni (mynegir fel gweithgareddau dysgu a derfynwyd) ar bob lefel dros y tair blynedd ddiwethaf. Er enghraifft, ar lefel 5, bu cynnydd o 64 o weithgareddau dysgu a derfynwyd yn 2011-2012, i 453 o weithgareddau dysgu a derfynwyd yn 2013-2014. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn cyfraddau llwyddo ar bob lefel yn gymedrol, ac nid ydynt yn adlewyrchu'r cynnydd mawr yn nifer y gweithgareddau dysgu.

Mewn SABau, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr ymrestriadau ar gyfer lefelau 3 a 5 yn y tair blynedd ddiwethaf. Mae ymrestriadau lefel 5 wedi codi o 19 yn 2011-2012, i 171 yn 2013-2014. Yn yr un cyfnod, bu gostyngiadau mawr mewn cyfraddau cwblhau ar lefelau 2 a 3 mewn SABau. Nid yw'n glir beth sy'n digwydd i'r dysgwyr nad ydynt yn cwblhau'r cymhwyster. Ar lefel 5, roedd cyfraddau cwblhau a chyrraeddiad yn dangos cynnydd sylweddol, er bod cyrraeddiad yn 2013-2014 wedi gostwng. (Llywodraeth Cymru, 2015b.)

Gweithgareddau a chyfraddau llwyddo DYYG, yn ôl lefel

	2011-2012			2012-2013			2013-2014		
	Gweithgareddau Dysgu a Gyflawnwyd	Gweithgareddau Dysgu a Derfynwyd	Cyfradd llwyddo ³ (%)	Gweithgareddau Dysgu a Gyflawnwyd	Gweithgareddau Dysgu a Derfynwyd	Cyfradd llwyddo (%)	Gweithgareddau Dysgu a Gyflawnwyd	Gweithgareddau Dysgu a Derfynwyd	Cyfradd llwyddo (%)
Cyfanswm L2	1,043	1,362	77	1,818	2,304	79	2,351	2,800	84
Cyfanswm L3	391	492	79	838	1,021	82	1,477	1,711	86
Cyfanswm L5	47	64	73	93	114	82	351	453	77
Cyfanswm Anhysbys	75	118	64	312	375	83	338	409	83

Ymrestriadau a chyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddo SABau, yn ôl lefel

	2011/12				2012/13				2013/14			
	Nifer yr Ymrestriadau	Cyfradd cwblhau ¹ (%)	Cyfradd cyrhaeddiad ² (%)	Cyfradd llwyddo ³ (%)	Nifer yr Ymrestriadau	Cyfradd Cwblhau (%)	Cyfradd cyrhaeddiad (%)	Cyfradd llwyddo (%)	Nifer yr Ymrestriadau	Cyfradd cwblhau (%)	Cyfradd cyrhaeddiad (%)	Cyfradd llwyddo (%)
Cyfanswm L2	446	85	81	68	761	71	90	63	532	79	91	71
Cyfanswm L3	151	87	87	76	526	77	90	69	420	80	88	70
Cyfanswm L5	19	53	80	42	55	84	96	80	171	84	91	78
Cyfanswm Anhysbys	750	83	89	74	1,823	80	90	72	1,891	82	90	74

¹ Caiff cyfraddau cwblhau eu cyfrifo trwy rannu nifer y gweithgareddau dysgu a gwblhawyd â nifer y gweithgareddau dysgu a derfynwyd (a gwblhawyd neu a dynnwyd yn ôl).

² Caiff cyfraddau cyrhaeddiad eu cyfrifo trwy rannu nifer y gweithgareddau dysgu a gyflawnwyd â nifer y gweithgareddau dysgu a gwblhawyd.

³ Caiff cyfraddau llwyddo eu cyfrifo trwy rannu nifer y gweithgareddau dysgu a gyflawnwyd â nifer y gweithgareddau dysgu a derfynwyd.

Ansawdd addysg a hyfforddiant ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion

Mae'r ffigurau ar gyfer DYYG a SABau uchod yn seiliedig ar nifer yr ymrestriadau a'r deilliannau yn y cymwysterau canlynol:

Lefel y cymhwyster	Rhif y cymhwyster	Teitl y cymhwyster
Lefel 2	50112600	Diploma FfCCh mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lefel 2)
Lefel 2	50118092	Diploma FfCCh mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon (Lefel 2)
Lefel 3	50112004	Diploma FfCCh mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lefel 3)
Lefel 3	50118353	Diploma FfCCh mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon (Lefel 3)
Lefel 5	50119060	Diploma FfCCh mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lefel 5)
Lefel 5	50119941	Diploma FfCCh mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Lefel 5)
Lefel 5	50119989	Diploma FfCCh mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon (Lefel 5)
Lefel 5	6000051X	Diploma FfCCh mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon (Lefel 5)
Lefel 5	6000292X	Diploma FfCCh mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon (Lefel 5)

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2015b

Atodiad 2

Holiadur Estyn i aseswyr ar gyfer Diplomâu Gofal

Estyn yw'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer Cymru. Rydym yn arolygu darparwyr addysg a hyfforddiant (fel ysgolion, SAB a sefydliadau hyfforddi). Rydym yn cynnal adolygiadau o feysydd addysg a hyfforddiant hefyd.

Rydym wrthi'n cynnal adolygiad o safon yr hyfforddiant o fewn y Diplomâu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Lefelau 2, 3 a 5. Mae eich cyflogwr wedi rhoi caniatâd i ni gysylltu â chi a gofyn i chi ymateb i'r cwestiynau canlynol.

Os byddwch yn rhoi eich enw i ni, ni fydd yn cael ei ddefnyddio yn yr adolygiad; rydym yn gofyn am hwn er mwyn ymdrin ag unrhyw beth y gallech ei rannu â ni. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cysylltu â chi eto fel arfer.

Byddwch mor onest ag y gallwch; bydd hyn yn helpu i ni nodi beth sy'n gweithio'n dda a beth y mae angen ei wella mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

1. Enw (dewisol)

2. Cyflogwr (i bwy rydych chi'n gweithio)

3. Rhestrwch eich prif gymwysterau

4. Rhestrwch eich profiad blaenorol neu bresennol o weithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

5. DPP ac unrhyw hyfforddiant cysylltiedig arall yr ydych wedi ymgymryd ag ef yn y 2 flynedd ddiwethaf

6. Cyfanswm baich achos presennol y myfyrwyr ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

7. Baich achos cyfartalog dros y flwyddyn ddiwethaf

8. Unrhyw ddyletswyddau eraill yr ydych yn ymgymryd â nhw yn y sefydliad

9. Yn eich barn chi, beth sy'n gweithio'n arbennig o dda mewn perthynas â'ch rôl chi fel Asesydd?

10. Beth yw'r prif faes effaith sydd gennych yn eich rôl fel Asesydd, yn eich barn chi?

11. Yn fras, sut byddech chi'n esbonio i ddysgwyr beth yw 'syniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' a 'chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn', a sut gellir rhoi hyn ar waith?

12. Yn eich barn chi, beth fyddai'n eich galluogi i ddarparu gwasanaeth gwell yn eich rôl fel Asesydd?

DIOLCH YN FAWR AM LENWI'R HOLIADUR HWN – A FYDDECH CYSTAL Â'I DDYCHWELYD I'CH RHEOLWR MEWN AMLLEN SELIEDIG?

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Vanessa Morgan / Lin Howells	Awdur yr adroddiad cylch gwaith
Sandra Barnard	Arolygydd Arweiniol
Christine Hooper	Arolygydd Tîm
Alun Connick	Arolygydd Tîm
Jan Wood	Arolygydd Tîm
Roger Rowett	Arolygydd Tîm